| Enw'r Ymgeisydd | Rhif y Ganolfan | Rhif yr Ymgeisydd |
|---|---|---|
| | | |

**CYD-BWYLLGOR ADDYSG CYMRU**

**Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd**

**WELSH JOINT EDUCATION COMMITTEE**

**General Certificate of Secondary Education**

165/59

**HANES**

**MANYLEB A: ASTUDIAETHAU MANWL AC AMLINELLOL O AGWEDDAU AR HANES CYMRU/LLOEGR A'R BYD**

**PAPUR 1**

**ASTUDIAETH FANWL**

**09 - DE AFFRICA, 1960-1994**

P.M. DYDD GWENER, 9 Mehefin 2006

1 awr (o arholiad 2 awr)

| Cwestiynau a atebwyd | Swyddfa'n unig |
|---|---|
| Cw.1 (Gorfodol) | 20 |
| Cw. | 25 |
| CYFANSWM | 45 |

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

Ysgrifennwch eich enw, rhif y ganolfan a'ch rhif ymgeisydd yn y blychau ar ben y dudalen hon.

Atebwch Gwestiwn 1 (Adran A) **a** *naill ai* Cwestiwn 2 *neu* Gwestiwn 3 o Adran B.

Ysgrifennwch eich atebion ar y llinellau yn y llyfryn hwn. Defnyddiwch dudalennau ychwanegol os nad yw'r llinellau a ddarparwyd yn y llyfryn hwn yn ddigon. Ysgrifennwch eich enw ar bob tudalen ychwanegol a nodwch yn glir rif y cwestiwn rydych yn ei ateb. Rhowch eich tudalennau ychwanegol y tu mewn i'r llyfryn hwn.

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

Dangosir nifer y marciau sydd ar gael mewn cromfachau ar ddiwedd pob cwestiwn neu ran-gwestiwn.

Cewch farciau am ansawdd eich cyfathrebu ysgrifenedig.

I ennill y marciau llawn ar gyfer unrhyw gwestiwn, rhaid i'ch atebion fod yn berthnasol a rhaid iddynt wneud defnydd llawn o'r wybodaeth a ddarparwyd.

**Ym mhob achos dylech gefnogi eich atebion trwy gyfeirio at eich gwybodaeth a'ch dealltwriaeth o'r pwnc a ddewiswyd.**

Ni roddir tystysgrif i ymgeisydd a geir yn ymddwyn yn annheg yn ystod yr arholiad.

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*Atebwch Gwestiwn 1 yn Adran A a* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3 yn Adran B.*

**ADRAN A**

(GORFODOL)

**1. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am ddiwedd apartheid.**

Astudiwch y ffynonellau isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn pob ffynhonnell. [20]

**Ffynhonnell A**



[Mandela, de Klerk a Buthelezi yn ysgwyd llaw yn ystod cyfarfod ym mis Medi 1991]

*(a)* Defnyddiwch Ffynhonnell A, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i ddisgrifio arweinyddiaeth y bobl ddu yn yr ymgyrch i ddod ag apartheid i ben ar ddechrau'r 1990au. [3]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

**Ffynhonnell B**

Ym mis Chwefror 1990 wrth iddo agor y Senedd, rhoddodd de Klerk araith a ddechreuodd ddymchwel y gyfundrefn apartheid. Ni fyddai'r *ANC*, y *PAC* a 30 o fudiadau eraill wedi'u gwahardd o hyn allan; cafodd carcharorion gwleidyddol eu rhyddhau ac ataliwyd y gosb eithaf.

[Addasiad o werslyfr ysgol, *South Africa* (1997)]

*(b)* Defnyddiwch y wybodaeth yn Ffynhonnell B, a'r hyn rydych chi'n ei wybod, i egluro newidiadau gwleidyddol 1990. [4]

**Ffynhonnell C**

Erbyn heddiw mae'r rhan fwyaf o bobl De Affrica, boed ddu neu wyn, yn cydnabod nad oes dyfodol i apartheid. Mae ein hymgyrch wedi cyrraedd man pwysig. Rydym yn galw ar ein pobl i fanteisio ar y foment hon fel bod modd symud ymlaen yn gyflym a dirwystr tuag at ddod ag apartheid i ben. Nawr yw'r amser i yrru'r ymgyrch yn ei blaen.

[Rhan o araith a wnaed gan Nelson Mandela wrth iddo gael ei ryddhau o garchar ym mis Chwefror 1990. Roedd yn annerch cefnogwyr yr *ANC*.]

*(c)* Pa mor ddefnyddiol yw Ffynhonnell C fel tystiolaeth i hanesydd sy'n astudio'r rhesymau dros ddod ag apartheid i ben?
Eglurwch eich ateb gan ddefnyddio'r ffynhonnell a'r hyn rydych chi'n ei wybod. [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**Ffynhonnell CH**

> Roedd problemau anferth yn wynebu de Klerk pan ddaeth yn Arlywydd. Ond trwy ddilyn polisi medrus i ddod ag apartheid i ben, roedd yn credu y gallai ddatrys y problemau hynny a galluogi'r lleiafrif gwyn i gadw eu gafael ar rym.

[Addasiad o werslyfr hanes modern i ysgolion gan H. MacDonald a B. Williamson, *South Africa* (1997)]

*(ch)* Yn Ffynhonnell CH mae'r awduron yn awgrymu mai agwedd de Klerk oedd y prif ffactor a ddaeth ag apartheid i ben.
A yw hynny'n ddehongliad dilys?

*Yn eich ateb dylech ddefnyddio'r hyn rydych chi'n ei wybod am y testun, cyfeirio at y ffynonellau eraill sy'n berthnasol yn y cwestiwn hwn ac ystyried sut y daeth yr awduron i'r dehongliad hwn.* [8]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

Examiner only
*Arholwr yn unig*

Examiner only
*Arholwr yn unig*

## ADRAN B

*Atebwch* **naill ai** *Cwestiwn 2* **neu** *Gwestiwn 3*.

**2. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am y gwrthwynebiad i apartheid yn Ne Affrica.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Roedd y gwrthwynebiad i apartheid yn tyfu. Mae'r darlun hwn yn dangos heddlu De Affrica yn chwalu cyfarfod protest y *PAC*.



*(a)* (i) Pwy oedd Robert Sobukwe? [2]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam y gadawodd rhai aelodau yr *ANC* a sefydlu'r *PAC*. [4]

(iii) Pa mor llwyddiannus oedd y protestiadau yn Soweto yn 1976? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch beth a ddigwyddodd yn Sharpeville. [3]

(ii) Eglurwch pam roedd y llywodraeth yn gweld Steve Biko fel bygythiad. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Ai protestwyr du oedd yn gyfrifol am y rhan fwyaf o'r gwrthwynebiad i apartheid yn Ne Affrica? Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

**3. Mae'r cwestiwn hwn yn sôn am y gwrthwynebiad rhyngwladol i apartheid.**

Astudiwch y wybodaeth isod ac yna atebwch y cwestiynau sy'n dilyn. [25]

**GWYBODAETH**

Roedd y pwysau rhyngwladol i ddod ag apartheid i ben yn tyfu o hyd. Mae'r darlun hwn yn dangos gwrthdystiad gwrth-apartheid y tu allan i Fanc Barclays yn Llundain yn 1978.




*(a)* (i) Beth yw'r Gymanwlad? [2]

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................

..........................................................................................................................................



**Trosodd.**

Examiner only
*Arholwr yn unig*

(ii) Eglurwch pam roedd y Cenhedloedd Unedig a llywodraeth De Affrica yn anghytuno ynglŷn â Namibia. [4]

(iii) Pa mor llwyddiannus oedd y sancsiynau economaidd yn erbyn De Affrica? [5]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(b)* (i) Disgrifiwch waith y Mudiad Gwrth-Apartheid. [3]

(ii) Eglurwch pa effaith a gafodd y boicotio ym myd chwaraeon ar Dde Affrica. [4]

Examiner only
*Arholwr yn unig*

*(c)* Ai pwysau economaidd oedd y dull pwysicaf o wrthwynebu a ddefnyddiwyd gan y gymuned ryngwladol?
Eglurwch eich ateb yn llawn. [7]

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................

..............................................................................................................................................